# CARDIAU CRYFA – RHYWOGAETHAU

## AMCAN

Mae disgyblion yn trafod ac ymchwilio i wytnwch rhywogaethau i'r newid yn yr hinsawdd. Byddant yn dysgu beth sy'n gwneud rhywogaeth yn wydn a'r hyn sy'n gwneud rhywogaeth yn fregus, a chymharu a rhagweld ymateb rhywogaethau amrywiol i'r newid yn yr hinsawdd.

## TROSOLWG

Gwytnwch yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd yw i ba raddau mae rhywogaeth yn gallu goroesi a pharhau yn wyneb newid yn yr hinsawdd.
Mae'r gwytnwch hwn dibynnu ar allu rhywogaeth i ddygymod â newid amgylcheddol, addasu (ymddygiad, ffenoleg a geneteg), neu ddilyn hinsawdd ffafriol drwy newid eu gwasgariad.

Bydd hyn yn dibynnu ar gyfuniad o sawl ffactor:

- gallu i wasgaru
- gallu i atgenhedlu
- sensitifrwydd i newid amgylcheddol
- iechyd cynefin
- cystadleuaeth i addasu

Gan fod cymaint o ffactorau i'w hystyried, gan gynnwys ansicrwydd dros sut y gall cyfosodiadau rhywogaethau newid wrth i wasgariadau symud gyda'r hinsawdd, mae'n anodd iawn rhagweld yr effaith ar rywogaethau. Fodd bynnag, gall gwneud ein gorau i astudio a deall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar rywogaethau, ac adnabod y lleiaf gwydn, ein helpu i gymryd y camau cywir i warchod y mwyaf bregus.

## AMSER GOFYNNOL

Creu cardiau: 45 munud

Chwarae: 10 munud a thrafodaeth dosbarth

## CYFRANOGWYR

2–4 o chwaraewyr i bob gêm

## ADNODDAU GOFYNNOL

- Templedi Cardiau Cryfa – Rhywogaethau (isafswm o 20 ym mhob pecyn)
- Pennau ysgrifennu neu bensiliau
- Sisyrnau

## CANLYNIADAU DYSGU

- Gwerthfawrogi bod rhywogaethau gwahanol yn cael eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol gan y newid yn yr hinsawdd
- Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar allu rhywogaeth i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

## Y NEWID YN YR HINSAWDD A RHYWOGAETHAU GORESGYNNOL

1. Cyflwyno'r syniad o wytnwch. Gall gwytnwch gael ei ddisgrifio'n syml fel cadernid, bod y byd tu allan ddim yn cael gormod o effaith, neu'r gallu i adfer wdi caledi. Gofynnwch i'r dosbarth awgrymu pethau maen nhw'n teimlo sy'n wydn neu'n fregus. Llywiwch y dosbarth at enghreifftiau o anifeiliaid neu blanhigion. Gofynnwch am syniadau am sut allai'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar blanhigyn neu anifail, a beth allai ei wneud yn wydn i'r effeithiau hyn. Mae mwy iddo na bod yn fawr ac yn gryf.

2. Cyflwynwch y pedair ffactor sy'n effeithio ar allu rhywogaeth a'i phoblogaeth i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd (isod). Lluniwch raddfa ar gyfer pob ffactor ar y bwrdd a meddwl am enghreifftiau o rywogaethau natur drefol ar y pegynau. Mae'n bwysig cyflwyno'r syniadau yma'n dda, gydag enghreifftiau, er mwyn i'r disgyblion allu creu eu Cardiau Cryfa – Rhywogaethau.

### Gallu i wasgaru

Y gallu i symud hadau yn gorfforol, neu eu gwasgaru. Mae gallu uwch i wasgaru yn dda ar gyfer cydnerthedd.

### Gallu i atgenhedlu

Cyfradd atgenhedlu a nifer yr epil. Mae gallu uwch i atgenhedlu yn dda ar gyfer cydnerthedd.

### Gallu i addasu

Sensitifrwydd a'r gallu i addasu i newid. Gall hyn olygu'r gallu i newid ymddygiad, ffenoleg neu wasgariad, neu hyd yn oed esblygu. Bydd gan rywogaethau sydd ag anghenion penodol iawn (e.e. deiet neu gynefin) sydd ddim yn gallu dygymod neu addasu i newid, sgôr isel. Bydd gan rywogaethau cyffredinol, neu sy'n gallu addasu'n gyflym sgôr uchel. Mae gallu i addasu yn dda ar gyfer gwytnwch.

### Iechyd cynefin

Y cynefin sydd ar gael, lle maent eisoes yn byw a lle gall eu gwasgariad symud, a pha mor dda mae'r ardaloedd hyn wedi'u cysylltu. Mae iechyd cynefin uwch yn dda ar gyfer gwytnwch.

3. Eglurwch y bydd y dosbarth yn creu Cardiau Cryfa – Rhywogaethau ar gyfer rhywogaethau trefol, gyda sgoriau yn seiliedig ar eu gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ar gyfer pob ffactor a drafodwyd. Y dasg gyntaf yw penderfynu pa rywogaethau i'w rhoi ar y cardiau.

Dewiswch ystod eang o rywogaethau trefol (mamaliaid, infertebratau, adar, ymlusgiaid ac amffibiaid, a phlanhigion). Gallwch ddewis fel dosbarth, grwpiau neu barau. Efallai y byddwch chi am fod yn fwy cyffredinol na rhywogaethau (e.e. gloÿnnod byw). Mae isafswm o 30 cerdyn yn y rhan fwyaf o becynnau Top Trumps, ond gallai 20 fod yn haws eu trin. Y mwyaf o gardiau yr hwyaf y gêm.

4. Bydd angen cerdyn ei hun ar bob rhywogaeth. Defnyddiwch y templedi, gan gynnwys enw'r rhywogaeth, darlun, a 'Dwi'n byw yn...' (gweler yr enghraifft).

Gofynnwch i'r disgyblion roi sgôr o 0 i 10 i'r rhywogaeth yn y pedair ffactor gwytnwch, a sgôr gwytnwch cyffredinol yn seiliedig ar y rhain. Mae rhywogaeth gyda sgôr isel yn fregus iawn, a rhywogaeth gyda sgôr uchel yn wydn. Dylai disgyblion osgoi rhoi sgôr llawn i ormod o rywogaethau.

5. Gofynnwch i'r disgyblion gyfnewid cardiau ymysg eu grŵp a thrafod unrhyw sgorau nad ydynt yn cytuno â hwy. Os nad ydynt yn cytuno, dylent egluro pam, gweld beth mae gweddill y grŵp yn ei feddwl, a phenderfynu gyda'i gilydd.

6. Pan fydd y cardiau'n barod, bydd y disgyblion yn barod i chwarae.

## TRAFODAETHAU DOSBARTH

- Pa rywogaethau sydd sydd fwyaf a lleiaf addas i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd? Pam?
- Pa rywogaethau sy'n sgorio uchaf ac isaf ar gyfer pob ffactor gwytnwch? Pam?
- Sut all y newid yn yr hinsawdd effeithio ar ecosystem neu we bwyd?
- Sut allwn ni leihau effaith y newid yn yr hinsawdd?
- Sut all ardaloedd trefol addasu i'r newid yn yr hinsawdd?
- Sut all y newid yn yr hinsawdd effeithio ar boblogaethau dynol? Sut olwg fyddai ar ein Cerdyn cryfa – Rhywogaethau ni? Pa nodweddion sy'n ein gwneud ni'n wydn?
- Sut allwn ni weithredu i helpu rhywogaethau llai gwydn (gweler y gweithgaredd ychwanegol)?

## GWAITH PELLACH DEWISOL

### Rhywogaethau goresgynnol

Mae rhai rhywogaethau yn elwa o'r newid yn yr hinsawdd. Gall eu gwasgariad gynyddu, neu amodau hinsoddol fod yn fwy addas iddynt. Gall rhai rhywogaethau gael eu cyflwyno i ardal newydd, neu fudo i gynefin newydd lle nad oes ganddynt unrhyw gystadleuaeth. Mae'r rhywogaethau'n aml yn niweidiol i rywogaethau cynhenid yr ecosystem, ac yn cael eu galw'n aml yn rywogaethau goresgynnol.

Dewiswch rai rhywogaethau goresgynnol cyffredin mewn lleoliadau trefol a gofyn i'r disgyblion greu cardiau ar gyfer y rhywogaethau hyn. Ychwanegwch y cardiau at y Cardiau Cryfa – Rhywogaethau.

Rhywogaethau a awgrymir (yng Nghymru):

- Ysbrydwlithen
- Buwch gota amryliw
- Gwiwer lwyd
- Clymog Japan
- Terapiniaid
- Rhododendron
- Llyffant mawr America
- Briallen ddŵr

### Cynllun gweithredu

Gofynnwch i'r disgyblion ddewis y pum cerdyn gyda'r sgôr gwytnwch isaf o'u pecynnau a'u rhannu gyda gweddill y dosbarth. Trafodwch beth sy'n eu gwneud pob rhywogaeth yn anaddas i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Edrychwch os yw grwpiau gwahanol yn dewis rhywogaethau tebyg.

Y rhain nawr yw eich rhywogaethau blaenoriaeth, gyda'r sgôr gwytnwch isaf ac felly'n fwy tebygol o fod yn fregus.

Penderfynwch fel dosbarth pa gamau i'w cymryd i helpu'r rhywogaethau hyn. Edrychwch yn benodol ar beth sy'n rhoi gwytnwch isel i bob rhywogaeth. Pa ffactorau allwn ni ddylanwadu a gweithredu arnynt a pha rai sy'n anoddach eu newid.

Oes camau gweithredu fyddai'n helpu llawer o'r rhywogaethau blaenoriaeth hyn? Lluniwch dri cham gweithredu fyddai'n helpu'r mwyaf o rywogaethau. Dyma eich cynllun gweithredu.

